# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)28-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 3 Tachwedd 2009

**Amser:** 08.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

Anna Daniel, Gwasanaethau'r Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Croesawodd y Llywydd Anna Daniel, a oedd yn arsylwi fel pennaeth newydd Gwasanaethau'r Siambr, i'r cyfarfod.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)27-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 20 Hydref 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)28-09(p1)**

3.1 Dywedodd y Llywydd fod y ddadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ynghylch prif-ffrydio cynaliadwyedd o fewn portffolios y Gweinidogion, a drefnwyd ar gyfer dydd Mercher, wedi cael ei thynnu'n ôl.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylid rhoi 60 munud i drafod y cynnig i ddirymu Gorchymyn Dileu Twbercwlosis (Cymru) 2009, yr oedd 15 munud wedi eu neilltuo ar ei gyfer, oherwydd nifer y cyfranwyr a ragwelwyd.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5pm ddydd Mawrth na dydd Mercher. Nododd y Pwyllgor y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Mesur Addysg yn digwydd yn ystod y ddadl ddydd Mawrth.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 3 a 4 Tachwedd 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)28-09(p2)**

3.5 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)28-09(p3)**

3.6 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 18 Tachwedd 2009 -**

Dadl sy'n ceisio caniatâd y Cynulliad i gyflwyno Mesur arfaethedig Aelod ar hawliau gweithwyr ag anghenion dysgu ychwanegol (Jeff Cuthbert) (60 munud)

**Dydd Mercher 25 Tachwedd 2009 -**

Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (15 munud)

Datganiad gan y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru (45 munud)

Dadl ar araith y Frenhines (130 munud)

3.7 Trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn amlinellu'r pwysau ar yr amserlen busnes heblaw busnes y Llywodraeth tan ddiwedd tymor y Nadolig. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes drefnu amser ar gyfer dwy ddadl yn sgil y balot deddfwriaethol. Cytunodd y Pwyllgor y dylid cynnwys y ddwy ddadl hyn drwy ymestyn y Cyfarfod Llawn. Cytunodd y Pwyllgor hefyd i ddefnyddio'r dull hwn os oes angen cynnwys unrhyw fusnes arall cyn diwedd y tymor.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Papur ar y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth - newid enw - BC(3)28-09(p5)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth i ddiwygio Rheol Sefydlog 15 fel y gellir newid enw'r Pwyllgor i'r "Pwyllgor Cyfansoddiad". Cytunodd y Pwyllgor Busnes i ddychwelyd i'r mater yn y flwyddyn newydd, yng ngoleuni'r ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth ynghylch ei ymchwiliad i graffu ar is-ddeddfwriaeth a phwerau dirprwyedig.

**Cais gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 i gynnal cyfarfod Pwyllgor ffurfiol ddydd Mercher 4 Tachwedd 2009 - BC(3)28-09(p6)**

4.2 Nododd y Pwyllgor Busnes y cais gan Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 i gynnal cyfarfod ffurfiol ychwanegol ar ôl y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 4 Tachwedd. Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes y cais y tu allan i gyfarfod y Pwyllgor mewn e-bost oherwydd bod yr amserlen yn dynn.

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4: Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Addysg) 2010 - BC(3)28-09(p7)**

4.3 Trafododd y Pwyllgor Busnes gais i roi tair wythnos ychwanegol i Bwyllgor Deddfwriaeth Rhif 4 gyflwyno adroddiad ar y Gorchymyn Addysg. Ni chytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y terfyn amser, ond cytunodd i drafod cais pellach ar adeg briodol, pan fydd gan y Pwyllgor well syniad ynglŷn ag amserlen y Pwyllgor Deddfwriaeth.

**5. Pwyllgorau**

**Cais gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i gynnal cyfarfod ychwanegol gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig - BC(3)28-09(p8)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gais gan y Pwyllgor Menter a Dysgu i gynnal cyfarfod gyda'r Pwyllgor Materion Cymreig fore dydd Llun 23 Tachwedd fel rhan o'i ymchwiliad i seilwaith rheilffyrdd Cymru yn y dyfodol.

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol yn Nhregaron - BC(3)28-09(p9)**

5.2 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gais yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ffurfiol y tu allan i ystâd y Cynulliad yn Nhregaron ddydd Llun 23 Tachwedd fel rhan o'i ymchwiliad i ddyfodol ucheldiroedd Cymru.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**